## YR ATODLEN

# RHAN III

**1.** Mae'r person perthnasol wedi'i gynnwys yn y rhestr o bersonau sy'n cael ei chadw o dan adran 1 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1999 (rhestr o'r rhai y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn barnu eu bod yn anaddas i weithio gyda phlant)(**1**).

**2.** Mae'r person perthnasol wedi'i gynnwys, ar y seiliau a grybwylliwyd yn is-adran (6ZA)(c) o adran 218 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**2**)) yn y rhestr a gedwir at ddibenion rheoliadau a wnaed o dan is-adran (6) o'r adran honno (rhestr o'r rhai sydd wedi'u gwahardd neu wedi'u cyfyngu rhag addysgu).

**3.** Mae'r person perthnasol wedi'i gynnwys, ar seiliau anaddasrwydd i weithio gyda phlant, mewn unrhyw rhestr a gedwir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o bersonau sy'n ddarostyngedig i ddatgymhwysiad a osodir o dan adran 470 neu 471 o Ddeddf Addysg 1996(**3**) (datgymhwyso personau rhag bod yn berchnogion ar ysgolion annibynnol neu rhag bod yn athrawon neu gyflogeion mewn unrhyw ysgol.)

(**1**) 1999 p.14.
(**2**) 1988 p.40; mewnosodwyd is-adran (6ZA) gan adran 5 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1999 a diwygiwyd is-adran (6) gan yr adran honno a chan adran 290(3) o Ddeddf Addysg 1993 (p.35); Rheoliadau Addysg (Cyfyngu Cyflogaeth) 2000 (O.S. 2000/2419) yw'r rheoliadau cyfredol a wnaed o dan is-adran (6).
(**3**) 1996 p.56.